**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1483
Ein cyf/Our ref RE/10340/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Tachwedd 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch ichi am eich llythyr.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu a'n Cytundeb Cydweithredu â Phlaid Cymru ill dau yn nodi ein hymrwymiad i gyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer llety gwyliau fel rhan o becyn o fesurau i fynd i'r afael â'r effaith negyddol y gall cyfran uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr ei chael ar gymunedau. Er bod y Cytundeb Cydweithio wedi dod i ben, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i reoleiddio llety i ymwelwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pryderon am yr effaith y gall rhai llety gwyliau tymor byr ei chael ar stoc dai mewn cymunedau a thystiolaeth anecdotaidd o gydymffurfio â gofynion cyfreithiol, neu ddealltwriaeth ohonynt. Rydym eisoes wedi rhoi mesurau ar waith i helpu awdurdodau lleol i reoli'r effaith y gall llety gwyliau ac ail gartrefi ei chael mewn ardaloedd preswyl. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio premiymau treth gyngor ar gyfer ail gartrefi a chartrefi gwag, a chyflwyno dosbarth defnydd cynllunio newydd i wahaniaethu rhwng prif gartrefi, ail gartrefi a llety gwyliau.

Mae'r diwygiadau hyn i ddeddfwriaeth gynllunio yn golygu y gall Awdurdod Cynllunio Lleol gyflwyno'r hyn a elwir yn gyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau, pan fyddant yn poeni am yr effaith ar eu cymunedau. Ar ôl cymryd y camau angenrheidiol, mae cyfarwyddyd Erthygl 4 yn galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i fynnu bod perchnogion eiddo yn cael caniatâd cynllunio cyn newid defnydd eu heiddo yn ail gartrefi neu lety gwyliau tymor byr.

Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i asesu effaith leol llety gwyliau newydd mewn eiddo preswyl ac ystyried pa gamau sydd eu hangen i ddiogelu buddiannau eu cymunedau. O ganlyniad i hynny, nid ydym yn cynnig cynnwys ymgynghoriad cymunedol neu breswyl fel rhan o broses drwyddedu genedlaethol. Mae gan awdurdodau lleol bwerau eisoes i gyflwyno rheolaethau cynllunio i ddelio â'r materion hyn, yn enwedig lle mae pryder lleol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sylweddol._Byddai cynnwys awdurdod trwyddedu cenedlaethol i wneud yr un peth yn arwain at broses lai clir ac effeithiol i breswylwyr a darparwyr llety. Mae gan awdurdodau lleol eisoes bwerau i gefnogi preswylwyr gyda chwynion am sŵn a niwsans cyffredinol.

Yn hytrach, rydym yn cynnig y bydd cynllun trwyddedu cenedlaethol yn datblygu ar y mesurau hyn ac yn galluogi darparwyr llety ymwelwyr i ddangos eu bod yn bodloni amodau penodol cyn y gallant ddefnyddio eu llety ar gyfer ymwelwyr.

Rydym am ddangos i ymwelwyr â Chymru bod gweithredwyr yn cymryd eu rhwymedigaethau o ddifrif wrth ddarparu llety diogel i ymwelwyr—safonau y bydd llawer yn y sector eisoes yn cydymffurfio â nhw.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning